**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Rhagfyr 2009**

## DARPARU RHEOLWYR AR YR OCHR WEITHREDOL

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am ddatblygiad cyfredol y ddarpariaeth swyddogion ar yr ochr weithredol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Yn ychwanegol ar yr adroddiad hwn, rhoddir cyflwyniad i'r Awdurdod.

### Cyflwyniad

**2.** Ym Mawrth 2008, cytunodd yr Awdurdod y dylid cynnal Adolygiad o Ofal Swyddogion fel rhan o'r Cynllun Lleihau Risg ar gyfer 2009/10, a hynny i edrych ar y modd y mae'r Gwasanaeth yn darparu gofal goruchwyliol gan reolwyr canol ac uwch mewn digwyddiadau brys.

**3.** Bwriad yr adolygiad oedd edrych ar hyfywedd 'opsiwn ymateb pwrpasol' a fyddai'n gwella sicrwydd yr ochr weithredol mewn digwyddiadau, ac effeithlonrwydd y Gwasanaeth.

### Cefndir

**4.** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cynnal yr un lefel a'r un dull o ran gofal swyddogion ar yr ochr weithredol ers uno Gwasanaethau Tân Clwyd a Gwynedd yn 1996.

**5.** Trafodwyd canlyniadau'r adolygiad am gryn amser gyda gweithgor y Cynllun Lleihau Risg, ac fe'u cyflwynwyd i'r Panel Gweithredol yn Rhan II yn y cyfarfod ym mis Tachwedd. Mynegodd y Panel Gweithredol ddymuniad y dylid prysuro'r gwaith hwn, a gwneud cyflwyniad i'r Awdurdod llawn.

**6.** Fel rhan o'r adolygiad, mae nifer o ddiwrnodiau i ymgysylltu â'r holl swyddogion cyfredol ar yr ochr weithredol wedi eu cynnal, er mwyn trafod yr holl faterion sy'n codi yn y cyflwyniad. Mae'r swyddogion yn cael gwybod am yr hynt trwy gydol yr adolygiad.

**Canfyddiadau'r Adolygiad**

**7.** Bydd swyddogion pwrpasol, y bydd eu cylch gwaith yn cynnwys rheolaeth ar yr ochr weithredol, sicrwydd, a chynnal a chadw safonau'r ochr weithredol, yn darparu gwelliant o ran sicrwydd ar yr ochr weithredol a maint yr ardal ddaearyddol i ymorol amdani.

**8.** Mae system shifftiau, sy'n adeiladu gofal yr ochr weithredol yn ystod y dydd ac yn cymryd ystyriaeth o'r oriau brig o ran y galw, o bosib yn fwy effeithlon ac effeithiol.

**9.** Mae swyddogaeth Diogelwch Tân sy'n cael ei chyflwyno gan staff sydd heb ofynion yr ochr weithredol arnynt o bosib yn fwy cynhyrchiol ac economaidd, ac yn gymorth i fod yn adnodd ar gyfer y newid sylfaenol hwn yn y modd y mae gwasanaethau craidd yn cael eu darparu.

**Gwaith Parhaus**

**10.** Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â datblygu system shifftiau sy'n ateb gofynion yr Amodau Gwasanaeth.

**11.** Mae proses werthuso swyddi wedi cychwyn ar gyfer asesu'r rolau Diogelwch Tân sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu cyflawni gan staff yr ochr weithredol sydd heb fod yn gofyn am gymwysterau'r ochr weithredol.

**12.** Unwaith y bydd y broses werthuso swyddi wedi ei chwblhau, bydd cynllun ar gyfer gweithredu hyn, gyda'r costau llawn, yn cael ei lunio i'w ystyried gan y Panel Gweithredol yn Chwefror 2010.

**Argymhellion**

**13.** Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth sydd yn y cyflwyniad ac yn yr adroddiad hwn.